

Elin Jones AC
Y Llywydd
Cadeirydd y Pwyllgor Busnes

12 Ebrill 2018

Annwyl Lywydd,

Gweithdrefn y Cynulliad ar gyfer Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor o dan Adran 116C

Diolch am eich llythyr dyddiedig 1 Mawrth 2018, a ystyriwyd gan y Pwyllgor yn ei gyfarfodydd ar 12 a 19 Mawrth.

Rydym yn nodi'r cefndir a roesoch i ni mewn perthynas â'r tri opsiwn a ystyriwyd gennych ac rydym yn nodi bwriad y Pwyllgor Busnes i fynd ymlaen ag Opsiwn C.

Byddem yn ddiolchgar o gael eglurhad ar egwyddor sylfaenol Opsiwn C. Mae ein darlleniad o'r cynigion yn awgrymu, o dan Opsiwn C, bydd craffu gan Bwyllgorau'r Cynulliad ar Orchmynion drafft, oni bai eu bod yn cynnal ymgynghoriad ar ymgynghoriad Llywodraeth y DU y cyfeirir ato ym mhapur y Pwyllgor Busnes ym mis Chwefror (paragraff 6, BC(5)07-18(p6)). Gan na ellir gwneud gwelliannau i Orchmynion drafft, byddai unrhyw adroddiad gan Bwyllgor y Cynulliad wedyn yn llywio cam i "gymryd y cynnig neu ei adael" i gymeradwyo Gorchymyn drafft, sy'n golygu na ellid ymgorffori unrhyw argymhellion gan Bwyllgor i ddiwygiadau i'r Gorchymyn drafft hwnnw.

Yn gysylltiedig â'r mater hwn, nodwn o'ch llythyr bod Llywodraeth Cymru wedi ystyried bod Opsiwn A yn broblemus. Byddai hefyd o gymorth i gael rhagor o wybodaeth ynghylch pam na ystyriwyd bod Opsiwn A yn werth mynd ar ei drywydd. Mae hyn oherwydd ei fod yn ymgorffori Gorchmynion arfaethedig yn y broses, a byddai felly'n ddull cryfach o graffu nag Opsiwn C.



Fodd bynnag, os yw'r bwriad yn parhau, i beidio â chynnwys Gorchmynion arfaethedig yn y broses, credwn y byddai'n werth ystyried dewis arall, sef, ystyried creu Rheol Sefydlog 25A newydd i ymdrin â Gorchmynion Adran 116C yn y Cyfrin Gyngor. Credwn y byddai hyn yn fwy cyfforddus o fewn strwythur presennol y Rheolau Sefydlog ac y byddai'n cynnig ffordd gliriach, daclusach a mwy hygyrch i symud ymlaen.

Byddai'n golygu y byddai'r Rheolau Sefydlog sy'n ymwneud â chaffael cymhwysedd deddfwriaethol (h.y. Rheol Sefydlog 25 a Rheol Sefydlog 25A), yn dod cyn y rheiny sy'n gysylltiedig â defnyddio'r cymhwysedd hwnnw i ddeddfu (Rheolau Sefydlog 26A, 26B a 26C) ac na fyddent yn dod o fewn cwmnasiad Rheol Sefydlog 27, sy'n ymwneud ag is-ddeddfwriaeth a wnaed o ganlyniad i bwerau a ddirprwywyd gan y Cynulliad Cenedlaethol i Weinidogion Cymru.

Yn gywir,



Mick Antoniw AC

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.

